Hawdd ei Ddeall

# Toiledau Changing Places

## Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni a beth fyddwn ni yn ei wneud



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘Toiledau Changing Places – Crynodeb o Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth’

**Hydref 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 34**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** Building Regulations
Welsh Government
Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ

**E-bost:** enquiries.brconstruction@gov.wales

**Ffôn:** 0300 062 8144

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru wedi** gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall  gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, **cliciwch yma**.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad....4**

**Atebion i'n cwestiynau....6**

Cwestiwn 1....6

Cwestiwn 2....8

Cwestiwn 3....10

Cwestiwn 4....12

Cwestiwn 5....15

Cwestiwn 6....18

Cwestiwn 7....22

Cwestiwn 8a. ....24

Cwestiwn 8b. ....28

Cwestiwn 9....29

**Beth fyddwn ni'n wneud nawr .... 30**

Cwestiwn 1 and 2. ....30

Cwestiwn 3....30

Cwestiwn: 4, 5 and 6....31

Cwestiwn 7....33

Cwestiwn 8....33

**Geiriau Anodd .... 34**

# Cyflwyniad




Yn 2021 fe wnaethon ni ofyn i bobl beth roedden nhw'n feddwl am ein syniadau ar gyfer:

- **Toiledau Changing Places**
- a **Cewynnau Babanod Changing Places.**




[Mae rhaor o wybodaeth am y gwaith yma a beth rydyn ni wedi ei ofyn ar ein gwefan.]()



Mae'r ddogfen yma am beth mae pobl wedi ei ddweud a'r atebion maen nhw wedi eu rhoi i'n cwestiynau.



Dim ond yr atebion am **Doiledau Changing Places** sydd yn y ddogfen yma



Fe fyddwn ni yn gwneud dogfen arall am **Cewynnau Babanod Changing Places yn fuan**.



Rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar yr atebion. Rydyn ni wedi defnyddio beth mae pobl wedi ei ddweud i wneud newidiadau.



Fe wnaeth 90 o bobl neu gyrff ateb y cwestiynau, yn cynnwys llawer o rieni  gofalwyr, pobl sydd yn defnyddio Toiledau Changing Places a gweithwyr proffesiynol.

# Atebion i'n cwestiynau

## Cwestiwn 1.

**Fe wnaethon ni ofyn**: Ydych chi'n cytuno y dylen ni gael rhagor o **Doliedau Changing Places** mewn lleoedd cyhoeddus?



Fe wnaeth pawb ddweud ie.

**Fe ddywedodd pobl:**



- Does dim digon o Doiledau Changing Places. Maen nhw'n fach a dydyn nhw ddim wedi eu gosod allan yn dda i gadair olwyn.



- Dydyn nhw ddim yn cael eu gofalu amdanyn nhw yn dda nac yn cael eu glanhau yn ddigon da.




- Mae darparu Toiledau Changing Places yn bwysig i iechyd pawb. Fe ddylen ni gefnogi mynediad cyfartal ym mhob rhan o Gymru.




- Mae cael Toiledau Changing Places yn rhan pwysig o ddeddfau fel **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau** a **Deddf Cydraddoldeb 2010**.



- Mae’r Ddeddf Cydraddoldeb yn siarad am hawliau cyfartal i bob person anabl i ymuno i mewn gyda’r gymuned.



- Fe fyddai cael rhagor o Doiledau Changing Places yn gwella bywydau pobl anabl. Fe fyddai’r toiledau yn lle diogel. Fe fyddai yn eu helpu i fynd i wahanol leoedd a bod yn rhan o’u cymuned.



- Yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2034 fe fydd yna ragor o bobl hŷn. Fe fydd dros 1 miliwn o bobl dros 50 oed. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod angen Toiledau Changing Places, felly fe fyddwn ni angen rhagor ohonyn nhw yn y dyfodol.



- Fe ddylai Toiledau Changing Places ddilyn y safonau yn y canllaw o’r enw **BS8300: Dylunio amgylchedd adeiladau hygyrch a chynhwysol Rhan 2: Adeiladau: 2018**.

Mae **hygyrch** yn meddwl gwneud rhywbeth yn fwy hawdd i’w ddefnyddio gan ragor o bobl.

# Cwestiwn 2.



**Fe wnaethon ni ofyn**: Ydych chi'n meddwl y dylen ni newid y canllaw **rheoliadau adeiladu**, i wneud yn siŵr bod adeiadwyr a chynllunwyr yn meddwl am **Doiledau Changing Places**?

> **Rheoliadau adeiladu** ydy rheolau i wneud yn siŵr bod pobl yn iach ac yn ddiogel mewn ac o gwmpas adeiladau.




Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.

**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud ie, ddweud wrthyn ni:**




- Newid canllaw **rheoliadau adeiladu** ydy'r unig ffordd  o wneud yn siŵr bod newidiadau yn digwydd. Mae adeiladwyr a chynllunwyr yn gwybod bod **rhaid** iddyn nhw ddilyn y canllaw.



- Fe fydd yn ein helpu ni i ddilyn Polisi Cynllunio Cymru. Fe fyddai'n gallu rhoi canllaw da ar y ffordd orau o ffitio Toiledau Changing Places.



- Fe fyddai angen i ganllaw newydd roi llawer o fanylion.



- Fe wnaeth ychydig o bobl ddweud wrthyn ni bod rhaid i'r toiledau gael **gwelyau sydd yn gallu cael eu haddasu yn drydannol**. Gwelyau ydy'r rhain rydych chi'n gallu eu symud i fyny ac i lawr i newid y ffordd mae rhywun yn gorwedd neu yn eistedd.

**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud na neu oedd ddim yn siŵr ddweud wrthyn ni:**




- Fe ddylai rhagor o fathau o adeiladau gael Toiledau Changing Places. Os ydyn ni dim ond yn gallu cynnwys adeiladau mawr sydd yn gallu ffitio llawer o bobl i mewn ynddyn nhw, yna dim ond ychydig o adeiladau fyddai hynny.



- Fe wnaeth un  person ofyn os ddylen ni newid gwahanol ganllawiau. Fe wnaethon nhw ofyn os oedd modd gwneud newidiadau i rannau eraill yr adeiladau.

# Cwestiwn 3.



**Fe wnaethon ni ofyn**: Ydych chi'n meddwl y dylen ni ddefnyddio **Polisi Cynllunio Cymru** i helpu awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod digon o **Doliedau Changing Places** yn eu hardaloedd?

Dogfen ydy **Polisi Cynllunio Cymru**. Mae'n dweud beth mae angen i bobl feddwl amdano wrth gynllunio newidiadau i leoedd cyhoeddus yng Nghymru.



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.

**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud ie ddweud wrthyn ni:**



- Mae'n dda gwybod bod adeilad angen Toiled Changing Places cyn i adeiladu ddechrau. Mae'n rhoi cyfle i gael gwell dyluniad.



- Mae'n rhatach adeiladu Toiledau Changing Places ar ddechrau adeiladu. Mae'n costio mwy o arian i osod un ar ôl i'r adeilad gael ei orffen.




- Fe ddylai awdurdodau lleol weld bod Toiledau Changing Places yn bwysig mewn lleoedd fel gorsafoedd bysiau a gorsafoedd trennau.



- Efallai bod cynllunwyr angen hyfforddiant ychwanegol i ddysgu am Doiledau Changing Places fel eu bod yn gwybod am y lleoedd gorau i'w gosod nhw. Fe ddylai cynllunwyr weithio gyda defnyddwyr toiledau i wneud yn siŵr bod y Toiledau  Changing Places yn ddigon da.

**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud na ddweud wrthyn ni:**



- Mae'n gallu bod yn ddryslyd os ydyn ni yn newid y canllaw **rheoliadau adeiladu** a **Polisi Cynllunio Cymru**.




- Fe fyddai angen inni feddwl am sut i ddweud wrth y **Corff Rheoli Adeiladu** am y newidiadau. Mae Cyrff Rheoli Adeiladau yn gyrff sydd yn edrych ar waith adeiladu i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y rheolau a'r deddfau.



- Fe wnaeth un person ddweud y dylen ni edrych ar bob adeilad. Fe ddylen ni benderfynu ydy hi'n deg bod angen cynnwys Toiled Changing Places.

# Cwestiwn 4.

Fe wnaethon ni ofyn: Ydych chi'n cytuno y dylai'r mathau o adeiladau sydd yn BLWCH A gael Toiled Changing Places?

## BLWCH A

Rydyn ni eisiau  Toiledau Changing Places mewn lleoedd fel:



- canolfannau siopa




- canolfannau chwaraeon a hamdden



- ysbytai lle mae lleoedd cyhoeddus eraill fel ystafelloedd aros a lleoedd bwyta

- adeiladau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer adloniant neu gyfarfodydd




- gwesty sydd ar agor i ddigwyddiadau cyhoeddus

- ysgolion sydd ar agor i'r gymuned



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud y dylai ein rhestr o adeiladau gynnwys rhagor o fathau o adeiladau.

**Fe wnaeth y bobl oedd wedi dweud ie ddweud wrthyn ni**



- Fe ddylai Toiledau Changing Places fod mewn unrhyw adeilad o unrhyw faint sydd ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio. Mae hyn yn meddwl gwestai, sinemau, colegau a phrifysgolion.




- Fe ddyen ni gynnwys adeiladau sydd yn ymwneud â thrafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys gorsafoedd trennau, gorsafoedd bysiau, gorsafoedd gwasanaethau a meysydd awyr.




- Fe ddylai pob ysgol gael Toiled Changing Places.



- Fe ddylai lleoedd **twristiaid** gael rhagor o Doiledau Changing Places. **Twristiaid** ydy pobl sydd yn teithio neu yn ymweld gyda lleoedd, fel arfer ar wyliau.

**Fe wnaeth rhai pobl ddweud:**



- Fe ddylai unrhyw adeilad newydd gael Toiled Changing Places os ydy'r adeilad dros:

  - 2500 metr sgwâr mewn maint

  - neu yn gallu dal o leiaf 500 o bobl y tu mewn.



- Fe ddylai'r maint 5000 metr sgwâr gynnwys y tu mewn a'r tu allan i adeilad.



- Mae angen inni fod yn fwy clir yn ein geiriau a rhoi rhagor o fanylion.

## Cwestiwn 5.




**Fe wnaethon ni ofyn**: Ydych chi'n meddwl y dylai gwahanol fathau o ysgolion gael **Toiledau Changing Places?**



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.

**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud ie ddweud wrthyn ni:**



- Fe fyddai hyn yr un fath â pholisi'r LLywodraeth i drin pobl yn deg mewn addysg. Fe fyddai yn helpu myfyrwyr, athrawon a rhieni anabl.


**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud na ddweud wrthyn ni:**




- Fe fyddai'n gallu bod yn anodd i bob ysgol gynnig Toiledau Changing Places. Fe fydden ni yn gallu edrych i weld os oedd ysgol angen un cyn rhoi un ym mhob ysgol.



- Fe fyddai gan Ysgolion Arbennig Doiledau Changing Places i'w disgyblion yn barod.




- Fe ddylen ni gynnwys ysgolion llai.



- Roedd un person eisiau inni fod yn fwy eglur yn ein geiriau a darparu rhagor o fanylion. Fe wnaethon ni ddefnyddio'r gair ysgol. Roedden nhw'n dweud y dylen ni gynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion hefyd




- Ddylen ni ddim edrych ar faint ysgol i benderfynu os ddylai gael Toiled Changing Places. Fe ddylen ni edrych ar beth mae'r myfyrwyr, athrawon, rhieni a'r gymuned leol ei angen.



- Fe wnaeth un person ddweud y dylen ni ddefnyddio'r un rheolau ag maen nhw yn eu defnyddio yn Lloegr ar gyfer Toiledau Changing Places.




- Roedd rhai pobl yn dweud y dylai unrhyw ysgol gyda Thoiled Changing Places adael i bobl ddefnyddio'r toiled pan mae'r ysgol wedi cau.



Fe wnaethon ni hefyd ofyn i athrawon ac Awdurdodau Lleol.



Fe wnaethon nhw ddweud bod ein syiadau yn ddechrau da. Fe wnaethon nhw ddweud nad oedd ein cynlluniau yn cynnwys ysgolion cynradd.

**Roedden nhw'n poeni am:**



- Lle fyddai Toiledau Changing Places yn mynd yn yr ysgol.



- Pwy fyddai'n talu am ofalu am y toiled a phethau fel golau a gwres a glanhau.

# Cwestiwn 6.

**Fe wnaethon ni ofyn**: Ydych chi'n cytuno y dylai'r mathau yma o adeiladau newydd neu adeiladau sydd yno yn barod sydd yn cael eu hymestyn gael Toiledau Changing Places os:

- maen nhw'n fawr iawn (dros 5000 metr sgwâr mewn maint)
- neu maen nhw'n gallu cael dros 1,000 o bobl ynddyn nhw?



- Canolfannau siopa.
- Siopau mawr.




- Canolfannau chwaraeon a hamdden.
- Ysbytai a chanolfannau gofal cymunedol.



- Adeiladau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer adloniant neu gyfarfodydd.




- Gwesty sydd ar agor i ddigwyddiadau cyhoeddus.
- Ysgolion sydd ar agor i'r gymuned.



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.

**Fe wnaeth pobl oedd wedi dweud ie ddweud wrthyn ni:**




- Roedden nhw eisiau inni fod yn fwy eglur yn ein geiriau a darparu rhagor o fanylion.



- Fe ddylai Awdurdodau Lleol ddweud faint o Doiledau Changing Places sydd eu hangen. Fe ddylen nhw roi hynny mewn penderfyniadau cynllunio.




- Fe fydd nodiadau canllaw yn bwysig. Mae nodiadau canllaw yn helpu i ddweud sut i ddilyn y rheolau.



- Rydyn ni wedi gosod maint adeiladau yn rhy uchel. Fe ddylai Toiledau Changing Places fod mewn adeiladau llai hefyd, sydd yn gallu dal llai o bobl.



- Fe ddylen ni feddwl am faint o bobl sydd yn ymweld â'r adeilad, beth mae'r gymuned ei angen a sut mae'r bobl yn defnyddio'r adeilad.



- Fe ddylai canllaw fod ar gyfer pob adeilad cyhoeddus pan maen nhw'n cael eu gwneud yn fwy neu pan maen nhw'n cael eu hadeiladu.




- Fe ddylai pob gorsaf tren a bws gael Toiledau Changing Places.



- Fe ddylen ni roi Toiledau Changing Places i westai sydd yn darparu digwyddiadau cyhoeddus.



- Efallai nad ydy lleoedd byw gyda chymorth angen Toiled Changing Places. Efallai bod gan y bobl sydd yn byw yno doiled yn eu hystafell.



- Mae cartrefi gofal yn gofalu am bobl sydd efallai angen Toiledau Changing Places. Mae llawer o'r cartrefi yn fach. Yn ein cynlluniau ni  fydden nhw ddim yn ddigon mawr i gael Toiled Changing Places.



- Fe wnaeth rhai pobl ofyn pwy fydd yn talu am y Toiledau Changing Places.



- Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud y dylai adeiladwyr ychwanegu Toiled Changing Places pan maen nhw yn gwneud adeilad yn llawer mwy.

# Cwestiwn 7.


**Fe wnaethon ni ofyn**: Ein syniad ydy y dylai rhai adeiladau gael Toiledau Changing Places pan:

- Maen nhw yn fawr iaen (dros 5000 metr sgwâr mewn maint) **neu**

- Yn gallu dal 1000 o bobl neu fwy.

Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw bethau eraill sydd yn gallu gwneud i adeilad gael Toiled Changing Places? Ydych chi'n meddwl y dylai'r maint neu'r nifer o bobl fod yn wahanol?

**Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud wrthyn ni:**



- Rydyn ni wedi gosod maint adeiladau yn rhy uchel. Fe wnaeth pobl ddweud y dylai fod gan adeiladau Doiledau Changing Places pan:

  - Maen nhw yn eithaf mawr (dros1000 metr sgwâr mewn maint)

  - Neu pan maen nhw'n gallu dal 200 o bobl neu fwy.



- Fe ddylen ni edrych a r beth mae defnyddwyr toiledau ei angen a'i eisiau.



- Fe ddylen ni feddwl am ychwanegu Toiledau Changing Places i doiledau cyhoeddus pan maen nhw'n cael eu newid.

# Cwestiwn 8.

**Fe wnaethon ni ofyn**: Ydych chi'n cytuno y dylai **Toiledau Changing Places** mewn adeiladau **newydd** gael yr **offer** sydd wedi eu rhestru yma?

**Offer** ydy pethau fel meinciau, sgriniau preifatrwydd, hoist a larymau diogelwch.

**Fe ddylai Toiledau Changing Places mewn adeiladau newydd gael:**



- **hoist**

  **Hoist** ydy darn o offer sydd yn gallu cael ei ddefnyddio i godi rhywun. Er enghraifft allan o gadair olwyn ac ar y toiled.



- basin
- bwrdd newid maint oedolyn rydych chi'n gallu ei symud i fyny ac i lawr



- silffoedd – er enghraifft, silff i'w defnyddio pan yn newid bagiau colostomi
- rheiliau diogelwch – llawr sydd ddim yn llithrig



- llawr gwrthlithro

- trac ar y nenfwd fel bod gofalwyr yn gallu gosod slingiau ar yr **hoist** i godi person o gwmpas yr ystafell



- cawod os oes digon o le

- peiriant tyweli papur



- drych maint llawn

- toiled gyda chefn iddo



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.


**Fe wnaeth y bobl oedd wedi dweud na ddweud wrthyn ni:**




- Mae Toiledau Changing Places angen digon o le ar gyfer cadeiriau olwyn a gofalwyr.



- Fe fyddai'n dda cael gwely newid gydag olwynion.




- Ddylai'r holl offer ddim bod yn lliw gwyn yn unig.



- Ddylen ni ddim gael synwyryddion symud oherwydd dydyn nhw ddim yn gweithio yn aml. Mae synwyryddion symud yn gwneud pethau fel cynnau'r golau pan mae rhywun yn dod i mewn i ystafell.



- Fe ddylai darllenydd sgrin allu darllen yr holl ganllaw.



- Fe ddylai'r Toiledau Changing Places fod yn gynnes.

**Fe wnaeth pobl ddweud wrthyn ni y bydden nhw'n hoffi cael yr offer yma:**



- Gwelyau sydd yn gallu cael eu haddasu.



- Sgriniau, silffoedd a chyflenwadau glanhau

## Cwestiwn 8b.

Fe wnaethon ni ofyn: Os ydy Toiled Changing Places yn cael ei roi mewn adeilad sydd yno yn barod, lle nad oes llawer o ofod, pa fath o **offer** ydych chi'n meddwl y dylai gael?

**Fe wnaeth pobl ddweud wrthyn ni y bydden nhw yn hoffi cael yr offer yma:**



- Gwelyau sydd yn gallu cael eu haddasu. **Offer** sydd yn plygu ar y wal.



- **Hoist**, basin, bwrdd newid, rheiliau diogelwch, llawr sydd ddim yn llithrig.



- Sgriniau, silffoedd a chyflenwadau glanhau.



- Rhaid i lle mae'r Toiled Changing Places yn yr adeilad fod yn hawdd mynd iddo.

# Cwestiwn 9.

**Fe wnaethon ni ofyn**: Os ydych chi eisiau dweud rhagor am ein syniadau am gael rhagor o **Doiledau Changing**, yn cynnwys pa mor fawr ddylen nhw fod a pha offer ddylen nhw ei gael, ysgrifennwch yma os gwelwch yn dda.

**Fe wnaeth pobl ddweud wrthyn ni:**



- Rhaid i Doiledau Changing Places fod yn ddigon mawr i bobl sydd yn defnyddio cadeiriau olwyn i fynd i mewn a symud o gwmpas.



- Mae darparu cyflenwadau glanhau, socedi trydan a chortyn tynnu larwm yn bwysig.



- Fe ddylen ni roi gwell canllaw ar uchder nenfwd a gosod **hoist**.



- Roedden nhw'n poeni am pwy fydd yn gofalu am y Toiledau Changing Places i wneud yn siŵr eu bod yn lân ac yn ddiogel.

# Beth fyddwn ni'n wneud nawr

## Cwestiwn 1 a 2




Fe fyddwn ni yn newid y canllaw rheoliadau adeiladu i wneud yn siŵr bod adeiladwyr a chynllunwyr yn meddwl am Doiledau Changing Places.

## Cwestiwn 3.



Fe fyddwn ni yn ei gwneud yn glir i awdurdodau cynllunio lleol eu bod yn gallu gofyn am ragor o Doiledau Changing Places os ydyn nhw'n gallu dangos bod angen y toiledau.



Fe fyddwn ni yn cynnwys Toiledau Changing Places mewn newidiadau yn y dyfodol i Bolisi Cynllunio Cymru.

# Cwestiynnau 4, 5 a 6.



Fe wnaethon ni siarad gyda rhagor o bobl am fathau a maint adeiladau.




Mae gennym ni reolau newydd am pa adeiladau sydd yn gorfod cael Toiledau Changing Places.

**Fe ddylai bod  o leiaf 1 Toiled  Changing Places mewn adeiladau newydd sydd yn:**



- Siopau mawr iawn neu ganolfannau siopa (dros 5000 metr sgwâr mewn maint).




- Canolfannau chwaraeon neu hamdden sydd yn gallu dal 10 mil o bobl neu fwy.
- Sŵ, parciau thema a lleoliadau chwaraeon sydd yn gallu dal 2 fil o neu fwy.



- Sinemau, theatrau a neuaddau cyngerdd sydd yn gallu dal 350 o bobl neu fwy.




- Ysgolion mawr (dros 4000 metr sgwâr mewn maint) sydd ar agor i'r gymuned.



- Ysbytai a chanolfannau iechyd o unrhyw faint. Rhaid i'r toiledau fod mewn lleoedd sydd yn agored i'r cyhoedd.
- Adeiladau chwaraeon a hamdden (dros 4000 metr sgwâr mewn maint).



- Gwestai sydd yn agored i ddigwyddiadau cyhoeddus (dros 4000 metr sgwâr mewn maint).

## Ysgolion



I ddysgu rhagor fe wnaethon ni ofyn i athrawon ac Awdurdodau Lleol am eu barn.



Doedd ein cynlluniau newydd ddim yn cynnwys ysgolion cynradd. Fe fyddwn ni nawr yn cynnwys ysgolion llai os ydyn nhw yn agored i'r gymuned.



Fe fyddwn ni'n edrych eto ar Doiledau Changing Places mewn ysgolion pan fyddwn ni'n edrych ar safonau dylunio ysgolion.

## Estyniadau



Rydyn ni  wedi penderfynu ar hyn o bryd na fydd Toiledau  Changing Places angen cael eu hychwanegu pan mae adeilad yn cael ei wneud yn fwy.

## Cwestiwn 7:



Fe fyddwn ni yn argymell yr **offer** rydyn ni wedi ei restru yn ein cynlluniau. Fyddwn ni ddim yn cynnwys yr **offer** ychwanegol  mae'r bobl sydd wedi llenwi ein ffurflen wedi eu rhestru.

## Cwestiwn 8:



Yn y dyfodol fe fyddwn ni yn edrych eto ar ychwanegu Toiledau Changing Places at adeiladu pan maen nhw yn cael eu gwneud yn fwy neu pan maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer rhywbeth newydd.

# Geiriau Anodd

### Hoist

Hoist ydy darn o offer sydd yn gallu cael ei ddefnyddio i godi rhywun. Er enghraifft allan o gadair olwyn ac ar y toiled.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl gwneud rhywbeth yn fwy hawdd i'w ddefnyddio gan ragor o bobl.

### Rheoliadau adeiladu

Rheolau ydy rheoliadau  adeiladu i wneud yn siŵr bod pobl yn iach ac yn ddiogel mewn ac o gwmpas adeiladau.

### Offer

Offer ydy pethau fel meinciau, sgriniau preifatrwydd, hoist a larymau diogelwch.